## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys i Gymru, yn darparu ar gyfer gorfodi a gweithredu rhai darpariaethau penodedig (sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid) yn Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig (OJ Rhif L268, 18.10.2003, t.1). Mae Rheoliadau ar wahân yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi'r rhan honno o Reoliad (EC) Rhif 1829/2003 sy'n ymwneud â bwyd.

Yn benodol mae'r Rheoliadau hyn —

(a) yn dynodi'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ffurfiol fel yr awdurdod cymwys cenedlaethol i gael ceisiadau am awdurdodi'r organeddau newydd a addaswyd yn enetig i'w defnyddio ar gyfer bwyd anifeiliaid, bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys organeddau a addaswyd yn enetig neu sydd wedi'i ffurfio ohonynt, neu fwyd anifeiliaid a gynhyrchir o organeddau a addaswyd yn enetig (rheoliad 3);

(b) yn darparu bod awdurdodau gorfodi yn gorfodi darpariaethau'r Rheoliadau hyn a darpariaethau Pennod III o Reoliad (EC) Rhif 1829/2003 (rheoliad 4);

(c) yn pennu cosbau am fethu â chydymffurfio â rhai darpariaethau penodedig yn Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 (rheoliad 5 a'r Atodlen);

(ch) yn cymhwyso amrywiol ddarpariaethau Deddf Amaethyddiaeth 1970 gydag addasiad at ddibenion y Rheoliadau hyn (rheoliad 6);

(d) yn cymhwyso amrywiol ddarpariaethau Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Samplu a Dadansoddi) 1999 (rheoliad 7);

(dd) yn darparu pwerau a gweithdrefn ar gyfer arolygu, atafaelu a dal gafael ar fwyd anifeiliaid a amheuir ac ar gyfer ei ddinistrio neu ei waredu drwy orchymyn ynad heddwch os nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau penodedig Rheoliad (EC) Rhif 1829/2003 (rheoliadau 8 a 9);

(e) yn darparu terfyn amser o dair blynedd o ddyddiad cyflawni'r tramgwydd neu flwyddyn o ddyddiad ei ddarganfod gan yr erlynydd, a hwnnw'n derfyn amser y mae rhaid cychwyn erlyniadau am dramgwyddau o dan y Rheoliadau o'i fewn (rheoliad 10).

Mae arfarniad rheoleiddiol yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 wedi'i baratoi ar gyfer y rheoliadau hyn a'i osod yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghyd â Nodyn Trosi. Gellir cael copïau oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW.